Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Ffrindiau Bach
# Ysgol Bro Gwydir
# Heol Watlin
# Llanrwst
# LL26 0EY

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Ffrindiau Bach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ffrindiau Bach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Carol Ann Salmond |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Carol Salmond |
| Person â gofal | Carol Salmond |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 32 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Llun- Gwener 9:00-11:30 & 12:15-2:45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydyn |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 07/07/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 16/06/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 07/05/2019 |

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r lleoliad yn cynnig darpariaeth Cylch Meithrin i blant rhwng 2½ hyd at 3 oed a Chlwb Gofal Meithrin Mwy i blant 3 a 4 oed sydd yn derbyn eu haddysg ran amser yn yr ysgol. Mae 25% yn siarad Cymraeg yn y cartref.
Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar plant mwy abl i ymestyn eu hymatebion

A2 Darparu mwy o gyfleoedd ysgrifennu cynnar ar draws y ddarpariaeth

A3 Ffurfioli trefniadau goruchwylio’r arweinydd

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau bwriadus ynglŷn â pha weithgareddau chwarae maent am gymryd rhan ynddynt. O ganlyniad, maent yn hapus ac yn hyderus wrth ofyn am adnoddau neu am gymorth. Mae rhan fwyaf y plant yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth gyflawni diddordebau personol. Mae pob plentyn yn derbyn anogaeth sydd yn eu galluogi i rannu eu teimladau yn llwyddiannus. Ar ddiwedd cyfnodau chwarae, mae rhan fwyaf y plant yn mynegi barn wrth adfyfyrio am eu gweithgareddau.

Mae rhan fwyaf y plant yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ar ddechrau'r sesiwn ac yn ymgymryd yn syth â gweithgareddau dyddiol. Mae gan bob plentyn perthynas bositif a chlòs gydag ymarferwyr sydd yn eu hadnabod yn dda. Maent yn dangos hoffter tuag at yr ymarferwyr ac maent yn hyderus i ofyn am gysur a chefnogaeth pan fydd angen. Mae'r plant yn derbyn sylw positif yn gyson, ac mae eu llwyddiannau'n cael eu cydnabod drwy ddefnyddio pawen lawen i ddathlu. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y lleoliad.

Mae bron pob plentyn yn ymdrechu i gydweithio ag eraill yn dda ac yn deall bod angen ar adegau i aros eu tro, er enghraifft wrth aros am gar rasio rheoli o bell. Maent yn sgwrsio a chytuno ar gemau wrth chwarae sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a gwneud ffrindiau. Mae rhan fwyaf y plant yn dyfalbarhau am gyfnodau cyson, er enghraifft wrth ymgolli mewn byd bach dychmygol dinosoriaid. Maent yn cydymffurfio â rheolau ac yn gofalu am a pharchu adnoddau yn briodol wrth iddynt dacluso.

Mae bron pob plentyn yn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir wrth ofalu am drychfilod bregus yn yr ardd. Maent yn mwynhau gweithio mewn gweithgareddau a drefnwyd neu yn ystod chwarae rhydd. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr sy'n llawn cyffro a chwilfrydedd wrth ddefnyddio chwyddwydrau i ddarganfod creaduriaid. Mae bron pob un yn dysgu medrau newydd yn effeithiol wrth iddynt ymgymryd â chyfleoedd chwarae gwerthfawr, er enghraifft wrth arbrofi â phibedau dŵr yn annibynnol yn dilyn cyfarwyddyd blaenorol gan ymarferydd.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau annibynnol priodol. Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob un yn arllwys diod a didoli ffrwythau er mwyn creu brechdan yn annibynnol. Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu'n ddysgwyr hyderus, er enghraifft wrth ddringo offer heriol yn y parc.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da o ystyried eu mannau cychwyn, yn enwedig yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Yn ogystal, maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae rhan fwyaf y plant yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau a storïau cyfarwydd. Maent hefyd yn ymateb yn glir i gwestiynau wrth drafod nodweddion y tywydd ac wrth ddysgu caneuon newydd. Mae llawer o'r plant yn defnyddio geirfa a brawddegau syml yn gadarn wrth ymateb i gwestiynau'r ymarferwyr ar ddatblygiad y lindys. Maent yn defnyddio ymadroddion gweithgareddau dyddiol yn gywir ac yn annibynnol wrth ymateb, fel adnabod dyddiau'r wythnos ac wrth ddisgrifio emosiynau. Fodd bynnag, nid yw'r plant mwy abl yn ymestyn eu brawddegau wrth ymateb i gwestiynau.

Mae rhan fwyaf y plant yn trin llyfrau'n gywir ac yn dynwared darllen wrth adrodd stori yn greadigol. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau penodol ac yn mwynhau mynd i ddarllen o'u gwirfodd. Mae'r mwyafrif yn adnabod eu henwau yn ysgrifenedig wrth eistedd adeg byrbryd ac wrth gofrestu. Maent yn mynd ati i greu marciau pwrpasol i efelychu malwod a dylunio pry genwair gyda chymorth ymarferydd. Fodd bynnag, dim ond ychydig o blant sy'n dylunio a marcio o'u gwirfodd ar draws yr ardaloedd.

Mae mwyafrif o'r plant yn rhifo gwrthrychau hyd at ddeg yn gywir ac mae ychydig yn rhifo tu hwnt i ddeg wrth gyfri faint o blant sy'n bresennol. Maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol yn hyderus wrth eu cyfateb. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio termau mathemategol fel mawr a bach yn annibynnol yn eu chwarae wrth greu cynefin ar gyfer trychfilod. Maent yn adnabod eu lliwiau yn y Gymraeg wrth gwblhau gweithgareddau taflu rhaff yn yr ardal allanol. Gall mwyafrif o'r plant hyn ddeall cysyniadau fel tal, byr, mwy a llai wrth adeiladu tŵr blociau mawr.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau TGCh yn dda wrth ddefnyddio llechi electronig a theganau rheoli o bell. Gall ychydig o blant gofnodi eu gwaith drwy dynnu llun ar lechen gyda chymorth a chyfateb wrth lusgo a gollwng gwrthrychau. Mae'r mwyafrif yn defnyddio til yn bwrpasol wrth chwarae siop, gydag ychydig yn adnabod a defnyddio ychydig o rifau ar y til yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau corfforol yn dda iawn wrth ddefnyddio teganau mawr a defnyddio offer dringo heriol. Mae medrau corffol mân y plant yn datblygu'n addas, er enghraifft wrth ddefnyddio gafaelwyr i godi gwrthrychau mân neu wrth wehyddu lluniau. Mae'r mwyafrif yn dechrau gwneud penderfyniadau ar sut i gyflwyno'u syniadau wrth greu protread gan ddefnyddio ffrwythau a llysiau.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn effeithiol. Mae ganddynt weithdrefnau effeithiol yn eu lle ac maent yn gweithredu'r polisïau perthnasol yn fwriadus. Mae'r holl ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae bron pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg ac yn cofnodi damweiniau'n briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau atal lledaenu haint, er enghraifft trwy annog y plant i olchi eu dwylo yn gyson gan gynnwys pan maent yn paratoi bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau a llysiau wrth greu brechdan adeg byrbryd ac yn annog y plant i flasu bwydydd newydd. Mae'r holl ymarferwyr yn

hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn yr ardaloedd allanol yn effeithiol iawn ac maent yn darparu cyfleoedd cyson i'r plant fod yn gorfforol weithgar a mentrus.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas agos a chynnes gyda'r plant ac maent yn eu trin gyda gofal a pharch. Maent yn modelu cwrteisi a charedigrwydd ac yn annog plant i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o'r plant ac yn ystyried tegwch a theimladau'r plant yn ystyrlon. Er enghraifft, sicrheir bod plentyn yn cael digon o amser i chwarae tegan ar ôl aros eu tro yn amyneddgar amdano. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo cyfleoedd gwerthfawr i blant fyw yn iach wrth frwsio dannedd yn ddyddiol ac i fwyta ac yfed yn iach wrth enwi, trafod a blasu ffrwythau a llysiau.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau buddiol i fodloni anghenion a dilyn hoffterau unigol plant, sydd bellach yn rhan annatod o gynllunio'r ymarferwyr. Maent yn cydweithio'n agos â'r ysgol ar gyfer cynllunio a chefnogi plant mewn modd ysgogol er mwyn sicrhau cysondeb yng nghamau nesaf eu dysgu a'u chwarae. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i adnoddau a gweithgareddau. Maent yn cydweithio ag asiantaethau allanol a rhieni er lles y plentyn. Enghraifft dda o hyn yw'r llyfryn canu mae'r cylch wedi ei greu ar gyfer rheini i ymuno ac ymarfer gyda'u plant yn y cartref.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol a chyffrous sy'n ysgogi diddordeb y plant drwy ystod eang iawn o weithgareddau. Maent yn gweithredu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar allu'r plant i ddyfalbarhau ac i ganolbwyntio ar eu dysgu am gyfnodau sylweddol. Enghraifft dda o hyn yw defnydd y plant o chwyddwydrau i ddarganfod trychfilod yn yr ardd. O ganlyniad, mae'r plant yn cael cyfleoedd da i arbrofi ac i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu. Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio'n fedrus ar wella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y meysydd dysgu, yn enwedig yn yr ardaloedd allanol.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd y plant trwy ddefnyddio caneuon a rhigymau a theganau i gyflwyno geirfa newydd a phatrymau brawddegau yn effeithiol. Maent yn modelu'r Gymraeg ac yn defnyddio strategaethau trochi iaith yn fedrus wrth gyd-chwarae gyda'r plant. Enghraifft ardderchog o hyn oedd cyflwyno rhifau, geirfa a strwythur iaith wrth arllwys dŵr ar hyd cafnau er mwyn symud y fuwch goch gota. Mae'r ymarferwyr ar adegau yn annog plant i farcio'n annibynnol, er enghraifft wrth ddylunio trychfilod yn yr ardd. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu marcio cynnar yn cael ei thargedu'n ddigonol ar draws y ddarpariaeth.

Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu yn effeithiol ac maent yn cyfateb yn gywir i ddeilliannau'r plant. Mae ymarferwyr yn arsylwi'n graff ar gyflawniadau'r plant ac mae hyn yn cael ei drafod yn effeithiol er mwyn cynllunio gweithgareddau dilynol. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth fanwl o allu pob plentyn ac maent yn ymwybodol o'r medrau sydd angen eu datblygu nesaf yn eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gweithgareddau ac adnoddau gyda'r rhieni er mwyn iddynt

gefnogi medrau llafaredd, meddwl a chreadigol plant adref. Mae'r lleoliad yn cynnal diwrnodau agored yn ystod y flwyddyn ac yn rhoi gwybod i rieni am gynnydd eu plant yn ffurfiol ar ddiwedd eu cyfnod yno.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn llwyddiannus wrth barchu diwylliannau eraill, er enghraifft trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd neu wrth arbrofi gydag offerynnau cerdd ar draws y byd. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru wrth gynnal Eisteddfod i'r plant adeg Dydd Gŵyl Dewi. Maent yn manteisio ar bob cyfle i fodelu ac esbonio moesau i'r plant, fel sut i barchu pethau byw wrth ddarganfod pry copyn yn y tywod.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ansawdd ac amrywiaeth yr ardaloedd chwarae allanol yn cynnig amgylchedd dysgu cyfoethog i'r plant. Mae'r ardaloedd mewnol wedi eu trefnu i gynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud yn rhwydd o un gweithgaredd i'r llall. Mae digonedd o le a chyfleusterau buddiol sy'n bodloni anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn elwa o'r berthynas gydlynol â'r ysgol, sy'n sicrhau eu bod yn cael mynediad at amrywiaeth o ardaloedd estynedig, fel gardd a pharc eang ar gyfer offer dringo a chwarae rôl. Mae'r ystafell ychwanegol yn creu awyrgylch dawelach ar gyfer rhai tasgau penodol fel amser cylch i grwpiau bach. Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae gweithdrefnau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg a driliau tan yn cael eu cwblhau yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn gwirio'n ddyddiol nad oes perygl i blant yn unrhyw un o'r ardaloedd chwarae. Rhoddir digon o gyfleoedd i blant arbrofi'n gorfforol yn ardal y parc, fel casglu canghennau i greu rhwyfau ar gyfer y canŵ ac wrth eu hannog i ddefnyddio offer dringo heriol mewn modd diogel.

Gwneir defnydd effeithiol o ddeunyddiau naturiol ac adnoddau cynaliadwy er mwyn galluogi'r plant i arbrofi a darganfod, er enghraifft wrth blannu blodau a choginio yn y gegin fwd. Mae amrywiaeth o adnoddau fel llyfrau, offer chwarae rôl a doliau yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau diddorol ac ysgogol ar gael ar draws y ddarpariaeth. Maent o ansawdd da ac mae rhan fwyaf o'r adnoddau yn cael eu storio ar lefel sy'n galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau yn rheolaidd, gan gael gwared ag unrhyw beth sydd ddim yn addas. Mae'r lleoliad yn cael ei lanhau ar ddiwedd pob sesiwn bore a phrynhawn ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd a'i dirprwy weledigaeth rymus iawn sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Gwneir hyn trwy gyfathrebu cyson a chefnogi ymarferwyr eraill yn effeithiol. Maent yn cefnogi ymarferwyr i ennill cymwysterau a mynychu hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd sy'n cael effaith

uniongyrchol ar ddarpariaeth a lles y plant. Mae cyfrifoldebau ymarferwyr o ran arwain asesu, cynllunio a datblygu ardaloedd wedi'u dosrannu'n llwyddiannus ac yn creu tîm sydd â diwylliant o gydweithio a gwelliant parhaus. Maent yn gosod blaenoriaethau clir sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau plant.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn sicrhau bod barn ymarferwyr, rhieni, plant ac asiantaethau allanol yn cyfrannu at ddiwylliant o welliant parhaus. Mae hyn yn arwain at gynllunio gwelliannau perthnasol a buddiol i'r lleoliad i fodloni anghenion y plant. Mae gan arweinwyr agwedd adeiladol wrth drafod effeithiolrwydd gweithdrefnau, er enghraifft wrth newid a datblygu system asesu neu wrth rannu gwybodaeth ddyddiol gyda rhieni am weithgareddau'r plant.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i'r lleoliad ac yn cefnogi'r arweinydd a'r ymarferwyr yn effeithiol i gynnal, gwella'u harferion ac i ymestyn y ddarpariaeth. Drwy dderbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad yn rheolaidd, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae pob ymarferydd yn rhan o broses arfarnu ac mae sesiynau arsylwi a monitro yn cael eu cynnal ar ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw'r arferion ar gyfer goruchwylio a gwerthuso'r gweithdrefnau'r arweinydd yn gyson. Mae'r person cofrestredig a'r pwyllgor yn sicrhau gweithgareddau cynyddu incwm rheolaidd. Yn sgil hyn a thrwy gefnogaeth y pwyllgor, mae'r arweinydd yn defnyddio amser digyswllt rheolaidd i fuddsoddi amser i ymgeisio am grantiau ac i wella'r ddarpariaeth. Mae'r pwyllgor yn monitro'r gwariant ac yn cefnogi'r cynllun datblygu'n wrth ei fonitro'n rheolaidd.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau da sy'n cydweithio'n effeithiol i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Enghraifft dda yw'r cyswllt agos â'r ysgol sy'n ehangu'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r plant yn ogystal â'u cefnogi wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni ac yn gweithredu ar eu syniadau i wella. Trwy gydweithio â'r awdurdod lleol a'r mudiad meithrin, maent yn sicrhau bod cynydd mewn amlwg yn neilliannau'r plant yn enwedig mewn medrau iaith.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2019